Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol Addasrwydd I Ymarfer 2023–2024

# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer 2023–2024

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Gwelliant) 2008

**© Hawlfraint Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2024**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn nmc.org.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 23 Portland Place, Llundain, W1B 1PZ.

ISBN 978-1-5286-4982-7

E03125878 07/24

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm cynnwys 40% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | **4** |
| Ein rôl | **6** |
| Ein cofrestr | **10** |
| Beth yw addasrwydd i ymarfer? | **12** |
| Addasrwydd i Ymarfer: Ein gwaith yn 2023-2024 | **21** |
| Crynodeb ystadegol 2023–2024 | **28** |
| Edrych ymlaen at 2024–2025 | **47** |

# Rhagair

Rydym yn cydnabod yr effaith mae addasrwydd i ymarfer yn ei chael ar bawb sy'n cymryd rhan yn ein prosesau, Gydag achosion addasrwydd i ymarfer yn cymryd gormod o amser i'w datrys.

Rydym am i'n proses Addasrwydd i Ymarfer fod yn syml. Mae angen ymdrin ag achosion atgyfeirwyr a gweithwyr proffesiynol yn effeithiol ac mewn dull amserol, dylai cyflogwyr ddeall pryd i atgyfeirio eu gweithwyr a dylai ein pobl deimlo'n falch o weithio i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) a gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd a gostyngodd ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer o 1,000 o uchafbwynt o 6,469 ym Mawrth 2022. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau a pharhaol cydweithwyr NMC, capasiti gwneud penderfyniadau cynyddol a gwelliannau i'n prosesau, ni wnaethom gyrraedd ein targed i leihau ein llwyth achosion i 4,000 achos erbyn Ebrill 2024, oedd yn eithriadol o siomedig. Roedd hyn yn rhannol oherwydd cynnydd arwyddocaol yn y nifer o bryderon a godwyd o fewn y flwyddyn. Yn Chwefror yn unig, cafodd 596 o bryderon newydd eu codi, sef y nifer uchaf mewn mis unigol yn y bum mlynedd diwethaf. Ac mae pobl yn aros yn llawer hirach nag y dylent i achosion gael eu datrys, sy'n cael effaith bersonol ar bawb dan sylw ac mae'n effeithio ar ein gallu i reoleiddio'n dda.

Cafodd ein cynllun Addasrwydd i Ymarfer newydd ei gymeradwyo gan y Cyngor ym Mawrth 2024 i gyflawni gwelliannau tymor hir cynaliadwy i'n prosesau a phrofiadau pobl ac mae'n fuddsoddiad ychwanegol mwyaf yn y maes hwn am ddegawd. Mae'n ymrwymo £30 miliwn dros y tair blynedd nesaf, â ffocws neilltuol ar fuddsoddi a gwella dros 18 mis gan ddechrau yn Ebrill 2024. Bydd yn cyflawni newid arwyddocaol mewn galluoedd a ffyrdd o weithio, gan wella sut rydym yn gweithio, er mwyn i ni wneud penderfyniadau o ansawdd sy'n parhau i gadw pobl yn ddiogel. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud â ffocws ar lesiant a diogelu yn y ffordd fwyaf amserol ac ystyriol bosibl, sydd hefyd yn gynaliadwy.

Rydym yn adeiladu ar sylfeini a osodwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae gennym dîm rheoli newydd yn ei le, tystiolaeth o gyfleoedd gwella a modelu am effaith ein llwyth achosion a'r adnoddau sy'n ofynnol i ateb galw. Mae hyn a mewnwelediad gan ein rhanddeiliaid wedi ein galluogi i lunio'r cynllun hwn, fydd yn gwireddu ein penderfyniad i ddatrys achosion mor ddiogel a chyflym â phosibl, er budd y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Yn ystod 2023–2024, pwysleisiodd canfyddiadau o arolygon mewnol a phryderon chwythu chwiban yr angen i ni fyfyrio ar ddiwylliant ein gweithle, ein prosesau rheoleiddiol a sut rydym yn meithrin gweithle amrywiol, cynhwysol a rhydd rhag gwahaniaethu. Rydym yn cymryd y pryderon hyn yn ddifrifol eithriadol ac rydym wedi sefydlu ymchwiliadau annibynnol i'w harchwilio'n drwyadl.

Byddwn yn adrodd ar y canfyddiadau yn dryloyw er mwyn i ni allu gwrando, dysgu a gweithredu ar yr argymhellion a wneir, yn ystod 2024 a thu hwnt.

Gall fod angen i ni ddiweddaru ein cynllun Addasrwydd i Ymarfer fel y bo'n briodol ond byddwn yn sicrhau bod y newidiadau hyn yn cynnal ymagwedd eglur strategol fydd yn braenau'r tir ar gyfer y dyfodol.

Mae'n bwysig i gofio bod y mwyafrif llethol o fwy na 826,000 o weithwyr proffesiynol cofrestredig yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, a bod ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn effeithio ar rnifer fach iawn yn unig bob blwyddyn. Gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod o dan bwysau enfawr mae'n hanfodol ein bod yn ystyried cyd-destun ac yn rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â'r pryderon trwy broses deg a chyfiawn. Nid ein rôl fel rheoleiddiwr yw cosbi, ond i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn ateb y safonau gofynnol i ymarfer yn ddiogel, i hyrwyddo dysgu, ac i atal problemau rhag codi eto, er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag risg.

Byddwn yn gweithredu bob amser pan fydd angen ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, byddwn yn tynnu pobl o'r gofrestr. Rydym yn gwybod bod yr achosion hyn yn cael effaith sylweddol yn aml ar deuluoedd, cleifion a gweithwyr proffesynol sy'n gweithio ar draws y sector gofal iechyd. Trwy waith ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus a Thimau Ymgysylltu â Thystion rydym yn ceisio cynorthwyo pobl trwy ein proses addasrwydd i ymarfer mewn cyfnod sy'n aml yn aruthrol o drawmatig ac emosiynol o'u bywydau.

Yn benodol, rydym yn cydnabod effaith ddinistriol troseddau erchyll a thorcalonnus Lucy Letby ar rieni a theuluoedd y babanod y llofruddiodd ac anafodd hi yn Ysbyty Countess of Chester. Yn Rhagfyr 2023, ar ôl i'r prawf troseddol ddod i ben, cafodd Ms Letby ei tharo oddi ar ein cofrestr.

Rydym yn cymryd rhan weithredol yn ymchwiliad Thirlwall i'r achos hwn. Rydym yn gwybod bod gan aelodau teulu sy'n rhan o achosion ar draws y sector gofal iechyd brofiadau trallodus a thrawmatig ac mae'n bwysig ein bod yn dysgu o'r holl achosion hyn trwy ymgysylltu â hwy ac unrhyw ymholiadau.

Rydym yn ddiolchgar am waith caled ein cydweithwyr ac arbenigedd ein partneriaid strategol sydd wedi ein herio ac ymgysylltu â ni i helpu llunio ein cynlluniau. Rydym yn gwybod nad ydym wedi cael pethau'n gywir bob tro yn y gorffennol, ond rydym mewn cyfnod o newid yn awr, lle mae'n pobl a'n diwylliant yn allweddol i gyflawni'n cynlluniau yn llwyddiannus. Rydym wedi ymrwymo i wneud y gwelliannau a'r cynnydd sydd eu hangen er budd pawb sy'n rhan o'n proses Addasrwydd i Ymarfer, er mwyn i ni allu cyflawni penderfyniadau amserol a diogel sy'n diogelu'r cyhoedd.

**Sir David Warren**
Cadeirydd
3 Gorffennaf 2024

**Andrea Sutcliffe**
Prif Weithredwr
a Chofrestrydd
3 Gorffennaf 2024

# Ein rôl

**Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.** Amlinellir ein hamcanion yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd).

Rydym yn cael ein llywodraethu gan ein Cyngor sy'n amlinellu ein cyfeiriad strategol ac yn cymryd penderfyniadau allweddol i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd trosfwaol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'n nhw'n gwneud hyn trwy:

a. ddiogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd

b. hyrwyddo a chynnal hyder cyhoeddus yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio

c. hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol ac ymddygiad cywir i aelodau'r proffesiynau hynny.

Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- **cynnal y gofrestr** o nyrsys a bydwragedd sy'n ateb y gofynion ar gyfer cofrestru yn y DU a chymdeithion nyrsio sy'n ateb y gofynion ar gyfer cofrestru yn Lloegr
- gosod y **gofynion ar gyfer yr addysg broffesiynol** sy'n cynorthwyo pobl i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sy'n ofynnol ar gyfer mynediad i, neu aelodaeth ar, ein cofrestr
- llunio ymarfer y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr trwy **ddatblygu a hyrwyddo safonau** gan gynnwys ein Cod, a hyrwyddo dysgu gydol oes trwy ailddilysu
- **ymchwilio i ac, os oes angen, gweithredu** lle codir pryderon difrifol am addasrwydd i ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Ein corff llywodraethol yw ein Cyngor, sy'n cynnwys chwech o bobl lleyg a chwech gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr. Goruchwylir ein gwaith gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith rheoleiddwyr proffesiynau iechyd a gofal. Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Cyfrin Gyngor. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig ac yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn cyflawni budd cyhoeddus.

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel y rheoleiddiwr annibynnol o fwy na 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth wireddu'r wledigaeth hon.

Rydym yma i ddiogelu'r cyhoedd trwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, gan wella ein cymorth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel i nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau eu rhaglenni addysg o ran ansawdd. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rheini sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol – rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

I reolediddio'n dda, rydym yn **cynorthwyo** nyrsys a bydwragedd proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chyfarwyddyd sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol a mynd i'r afael â heriau maen nhw'n eu hwynebu. Rydym yn cydweithio fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cymryd rhan ac wedi'u grymuso i lunio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysgu, i **ddylanwadu ar** a ffurfio penderfyniadau a helpu ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

Mae'n pum thema strategol yn llywio sut rydym yn blaenoriaethu ein gwaith ac yn ei osod mewn camau, yn ogystal â buddsoddiad newydd mewn pobl ac adnoddau eraill. Y rhain yw:

1. Gwella ac arloesi
2. Cymorth rhagweithiol i'n proffesiynau
3. Mwy gweledol a mwy gwybodus
4. Ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid a'u grymuso
5. Mewnwelediad a dylanwad helaethach

Gan ategu'r themâu hyn, rydym yn anelu at gydgyfeirio'n galluoedd, seilwaith a diwylliant i ddod yn sefydliad addas ar gyfer y dyfodol.

Mae ein gwerthoedd yn ategu popeth rydym yn ei wneud. Maen nhw'n llunio sut rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

**Rydym yn deg**

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy, tryloyw.

**Rydym yn garedig**

Rydym yn gweithredu â charedigrwydd ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu mewnwelediadau, sefyllfaoedd a phrofiadau.

**Rydym yn gydweithredol**

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (y tu mewn a'r tu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

**Rydym yn uchelgeisiol**

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio ac yn anelu bob amser at wneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a'n gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu un agwedd o'n rôl graidd o reoleiddio nyrsys a bydwragedd proffesiynol; gan ymchwilio i bryderon am eu haddasrwydd i ymarfer.

Rydym yn penderfynu a yw sgiliau, gwybodaeth, addysg neu ymddygiad y gweithwyr proffesiynol yn syrthio o dan y safonau sydd eu hangen i gyflawni gofal diogel, effeithiol a charedig. Os ydynt, rydym wedyn yn cymryd camau i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn esbonio'r hyn rydym yn ei wneud pan glywn am bryderon ac rydym yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2023–2024 wrth gyflawni'r rôl hon. Darperir ystadegau i ddarlunio ein gweithgaredd. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr NMC, sy'n edrych yn ehangach ar ein gwaith. Yn Hydref 2024 byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Cipolwg Addasrwydd i Ymarfer cyntaf sy'n rhoi cipolwg ar themâu a phatrymau'r achosion a dderbyniwn.

# Ein cofrestr

**I ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ymuno â'n cofrestr.** Mae hyn yn diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n gallu arddangos ein safonau ar gyfer gofal diogel, caredig ac effeithiol sy'n gallu ymarfer.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 826,418 o weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr barhaol. Roedd hyn yn gynnydd o 4.8 y cant o'r flwyddyn flaenorol (2022-2023: 788,638).

## Nifer y gweithwyr proffesiynol ar gofrestr barhaol fesul math o gofrestriad ar 31 Mawrth 2024

**44,125**
Bydwraig

**765,051**
Nyrs

**6,361**
Cofrestriad deuol
(nyrs a bydwraig)

**10,881**
Cydymaith nyrsio

Cyfanswm y gofrestr **826,418**

## Nifer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig yn ôl gwlad neu ranbarth y cofrestriad cychwynnol ar 31 Mawrth 2024

Lloegr **508,404**

Gogledd Iwerddon **22,209**

Yr Alban **73,916**

Cymru **31,672**

Undeb Ewropeaidd/ Ardal Economaidd Ewropeaidd
**26,500**



Gweddill y byd
**163,717**



Ers Mawrth 2020, rydym wedi cynnal cofrestr dros dro sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol y gwnaethom ystyried eu bod yn addas, cywir ac yn ddigon profiadol i weithio i gynorthwyo yn yr argyfwng Covid-19 ac i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad Covid-19 mewn gofal a gynlluniwyd.

Gyda diwedd y pandemig, cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai'r cofrestru dros dro yn dod i ben ym Mawrth 2024 ac fe wnaethom gau'r gofrestr ar 31 Mawrth 2024. Rydym yn cydnabod y cyfraniadau amhrisiadwy a wnaeth y gweithwyr proffesiynol hyn ac yn eu hannog i ymuno â'n cofrestr barhaol fel y gallent barhau i ddarparu gofal diogel, caredig ac effeithiol i'r cyhoedd. O 22,133 o bobl a ymunodd â'r gofrestr dros dro, trosglwyddodd 7,430 i'n cofrestr barhaol.

# Beth yw addasrwydd i ymarfer?

Mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i ymarfer os oes ganddynt y sgiliau, gwybodaeth, iechyd da a chymeriad i gyflawni gofal diogel, effeithiol a charedig i'w cleifion a phobl sydd ag angen neu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Cod yr NMC yn amlinellu'r safonau rydym ni, a'r cyhoedd, yn disgwyl i nyrsys a bydwragedd proffesiynol eu cynnal i fod ar ein cofrestr a chynnal eu cofrestriad yn y DU. Gallwch ddarllen Y Cod: Safonau proffesiynol ymarfer ac ymddygiad i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein gwefan yma.

Rydym yn gofyn i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ddangos i ni bob tair blynedd eu bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn ateb y safonau a amlinellir yn y Cod. Gelwir y broses hon yn ailddilysu ac mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ei chwblhau i gynnal eu cofrestriad â ni.

Os oes pryderon am addasrwydd i ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, rydym yn annog pobl i siarad yn gyntaf â'r cyflogwr am eu pryderon i weld os gall y rhain gael eu datrys ar lefel leol.

Lle nad yw pryderon yn gallu cael eu datrys yn lleol, neu os yw rhywun yn credu eu bod yn ddigon difrifol i ofyn am weithredu rheoleiddiol ar unwaith gennym, dylent leisio'r pryderon yn uniongyrchol â ni. Byddwn wedyn yn penderfynu os oes angen i ni weithredu i ddiogelu'r cyhoedd ac, ym mhob achos, rydym yn ceisio cyrraedd canlyniad mor gynnar â phosibl.

Os byddwn yn canfod bod rhywun wedi'i gofrestru â ni yn cyflwyno risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y cyhoedd neu eu cydweithwyr, rydym yn gallu cyfyngu ar eu hymarfer neu ddileu eu hawl i weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

# Proses Addasrwydd i Ymarfer

Dyma ddarlun wedi'i symleiddio o lwybrau trwy'n proses addasrwydd i ymarfer yn 2023–2024.

Ni chynhwysir pob proses gellir ystyried yr angen am orchymyn dros dro ar unrhyw gam o'r broses.




* Mae'r cam hwn yn cynnwys paratoi'r achos i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ei ystyried a lle bo gofyn, ymchwiliad ychwanegol.

** Newidiodd ein proses Dileu Gwirfoddol yn Ebrill 2023, i Ddileu Cytunedig. Mae'r broses newydd yn caniatáu i bartïon ystyried gweithiwr proffesiynol yn cael ei ddileu o'r gofrestr cyn cam ystyriaeth archwiliwr yr achos, mewn amgylchiadau penodol.

# Sut mae pobl yn codi pryderon â ni

Gall unrhyw un ddweud wrthym os oes ganddynt bryderon am addasrwydd i ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar unrhyw adeg. Neu, os ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, rydym yn gallu agor achosion ein hunain.

Fel arfer, rydym yn derbyn pryderon gan:

- glaf neu unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- un o'r cyhoedd
- cyflogwr neu reolwr nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- yr heddlu
- nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn atgyfeirio'i hun
- rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am sut i leisio pryderon ar ein gwefan.

# Pryderon rydym yn gallu ac nad ydym yn gallu eu hystyried

Gallwn ystyried pryderon yn unig pan fyddant am nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr. Os yw'r pryderon am weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill, byddwn yn eu hatgyfeirio at y rheoleiddiwr perthnasol neu'r heddlu, os yn briodol.

Ein rôl yw penderfynu a yw unrhyw bryderon am addasrwydd i ymarfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn gofyn i ni weithredu i ddiogelu'r cyhoedd.

Gallwn edrych ar sawl math o bryder, gan gynnwys:

- camymddwyn (gan gynnwys camymddwyn clinigol)
- diffyg cymhwyster
- euogfarnau troseddol
- salwch difrifol
- peidio â chael yr wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg.

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun wedi ennill mynediad at ein cofrestr trwy dwyll neu'n anghywir.

# Ron am y rheini â chofrestriad dros dro

Rhoddwyd y pŵer i ni sefydlu cofrestr dros dro i gynorthwyo'r ymateb cenedlaethol i'r pandemig Covid-19. Gyda diwedd y pandemig, cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai cofrestru dros dro yn dod i ben ym Mawrth 2024 ac fe wnaethom gau'r gofrestr dros dro ar 31 Mawrth 2024.

Gan fod cofrestru dros dro wrth ddisgresiwn y Cofrestrydd, nid oedd ein prosesau addasrwydd i ymarfer arferol yn gymwys. Lle codwyd pryderon am unrhyw un oedd yn dal cofrestriad dros dro, fe wnaethom ymgymryd ag adolygiad ac ymchwiliad sylfaenol ac os oedd angen, dileu'r unigolyn o'r gofrestr dros dro.

Yn ystod 2023–2024:

- Cafodd un pryder ei godi am weithwyr proffesiynol ar y gofrestr dros dro (2022–2023: dau bryder, 2021–2022: un pryder)
- Dilewyd 0 pobl o'r gofrestr dros dro (2022–2023: tri ,2021–2022: tri)
- Ar gyfartaledd, fe wnaethom gymryd 51 diwrnod i adolygu a gweithredu ar yr achos hwn (2022–2023: 42 diwrnod, 2021–2022: 56 diwrnod).

# Sut i ymdrin â phryderon a godwyd â ni

Pan fydd rhywun yn codi pryder addasrwydd i ymarfer â ni (hefyd yn cael ei adnabod fel gwneud atgyfeiriad), byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ac yn penderfynu a oes gofyn am unrhyw gamau rheoleiddiol gan ddefnyddio'r tri chwestiwn allweddol:

- Oes gennym bryder ysgrifenedig am nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar ein cofrestr?
- Oes tystiolaeth o bryder difrifol a allai ofyn i ni gymryd camau rheoleiddiol i ddiogelu'r cyhoedd?
- Oes tystiolaeth eglur i ddangos bod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i ymarfer ar hyn o bryd?

Dyma gam cyntaf ein proses addasrwydd i ymarfer, sy'n cael ei adnabod fel sgrinio.

Mae camau y gallwn eu cymryd i'n helpu i asesu pryderon a phenderfynu a oes gofyn am weithredu rheoleiddiol yn gallu cynnwys:

- ystyried yr wybodaeth rydym wedi'i derbyn i ddeall pe byddai'r pryderon a godwyd yn haeddu gweithredu rheoleiddiol
- gofyn am ragor o wybodaeth gan yr unigolyn a gysylltodd er mwyn i ni ddeall ei bryderon yn llawn
- gwirio ein cofnodion i weld a oes pryderon wedi cael eu codi o'r blaen am y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- casglu gwybodaeth gan ei gyflogwr
- cymryd datganiadau gan eraill a all fod wedi bod yn dystion i ddigwyddiadau a chasglu tystiolaeth arall fel nodiadau, adroddiadau neu gofnodion
- gofyn i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio am eu hymateb i'r pryderon a pha gamau maen nhw wedi eu cymryd i gryfhau neu newid eu hymarfer ers i unrhyw ddigwyddiad ddigwydd.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn ymdrin â phryderon ar ein gwefan.

# Camau rheoleiddiol y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd

Rydym yn penderfynu a yw'r pryder yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddiol gan ddefnyddio'r wybodaeth a grybwyllwyd. Mae'r penderfyniad hwn yn ystyried y risgiau a all godi os nad yw'r gweithiwr proffesiynol yn mynd i'r afael â'r pryder nac yn ei gywiro ac unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd eisoes, er enghraifft ailhyfforddi perthnasol.

Yn y rhan fwyaf o achosion rydym yn eu derbyn, rydym yn penderfynu nad oes angen i ni gyflawni ymchwiliad ychwanegol i'r pryderon a godwyd. Y flwyddyn hon (2023–2024), roedd 72 y cant o'n penderfyniadau ar y cam sgrinio i gau'r achos. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am ein perfformiad yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Lle bo angen, gallwn gymryd camau brys, dros dro i ddiogelu'r cyhoedd tra'n bod yn ymchwilio i bryderon. Rydym yn gwneud hyn trwy ofyn i banel annibynnol ystyried gwneud gorchymyn dros dro.

Mae dau fath o orchymyn dros dro.

- Gorchymyn amodau ymarfer dros dro, sy'n gosod amodau mae'n rhaid i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio gydymffurfio â nhw. Enghraifft o amod allai fod y gweithiwr proffesiynol yn cael ei oruchwylio gan weithiwr proffesiynol cofrestredig arall wrth ymarfer.
- Gorchymyn atal dros dro sy'n atal cofrestriad y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio dros dro.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am orchmynion dros dro ar ein gwefan.

Cyn gynted â'n bod wedi ymchwilio i bryderon yn drwyadl, gall ein harchwilwyr achosion:

- gau'r achos heb weithredu ychwanegol os nad oes pryderon diogelu'r cyhoedd
- rhoi cyngor i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i'w hatgoffa o'r safonau proffesiynol mae'n rhaid iddynt eu cynnal
- rhoi rhybudd i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- cytuno ar ymgymeriadau â'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, sy'n gyfres o gamau mae'n rhaid iddynt eu cymryd i ddychwelyd i ymarfer diogel ac effeithiol
- atgyfeirio'r achos i wrandawiad neu gyfarfod.

I ddarllen mwy am waith ein harchwilwyr achosion, ewch i'n gwefan.

Mewn achosion mwy difrifol lle rydym yn ystyried bod angen gosod sancsiwn i ddiogelu'r cyhoedd neu lle nad yw'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn derbyn bod pryderon am eu hymarfer, byddwn yn cynnal gwrandawiad neu gyfarfod ger bron panel annibynnol o'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

Mae panelau yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr (yn cael eu hadnabod fel aelodau cofrestredig) ac aelodau lleyg. Fel arfer, bydd tri aelod panel yn penderfynu ar unrhyw achos gydag o leiaf un aelod lleyg ac un aelod cofrestredig. Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth am y panelau ar ein gwefan.

Os nad yw'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn anghytuno â ffeithiau'r achos neu nad yw am fynychu gwrandawiad, gallwn gynnal cyfarfod i ganfod canlyniad cytunedig. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn breifat. Mae'r panel yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig rydym yn ei darparu yn ofalus ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig mae'r nyrs, bydwraig, neu gydymaith nyrsio yn ei rhoi i ni o flawn llaw.

Os nad yw'r nyrs, bydwraig, neu gydymaith nyrsio yn derbyn ffeithiau'r achos, neu os yw'n gofyn am wrandawiad, neu nad yw cyfarfod fel arall yn cael ei ystyried yn briodol, byddwn yn cynnal gwrandawiad i ystyried yr achos. Mae gwrandawiadau yn cael eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer. Yn y gwrandawiad rydym yn esbonio beth yw ein pryderon rheoleiddiol ac yn galw tystion i roi tystiolaeth. Gall y nyrs, bydwraig, neu gydymaith nyrsio fynychu a chael eu cynrychioli. Maen nhw, neu eu cynrychiolydd, yn esbonio beth yw eu hymateb i'n pryderon ac yn galw tystion i roi tystiolaeth. Gall gwrandawiadau fod yn brofiad sy'n peri straen i'r rheini sy'n cymryd rhan, ond maen nhw'n ofynnol weithiau ar gyfer datrys gwahaniaethau yn y dystiolaeth rhwng y partïon.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn penderfynu a ddylid anfon achos i wrandawiad neu gyfarfod ar ein gwefan.

Mewn gwrandawiad neu gyfarfod, gall panel annibynnol wneud un o'r canlynol:

- rhoi gorchymyn rhybuddiad am hyd at bum mlynedd
- gosod amodau ymarfer y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw am hyd at dair blynedd
- atal o'r gofrestr am hyd at un flwyddyn
- taro oddi ar y gofrestr
- cau'r achos heb unrhyw weithredu ychwanegol.

Mae gwybodaeth am y camau y gall ein panelau annibynnol eu cymryd ar gael ar ein gwefan.

Mae'n proses dileadau cytunedig yn caniatáu i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ddileu eu hunain o'n cofrestr heb yr angen am wrandawiad na chyfarfod os ydym yn fodlon ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Gall hyn gael ei gytuno ar unrhyw gam o'r broses addasrwydd i ymarfer ac mae'n caniatáu i ni hefyd ddiogelu'r cyhoedd ar y cyfle cynharaf tra'n lleihau'r effaith ar bobl o fod yn cymryd rhan yn ein prosesau rheoleiddiol. Rydym yn darparu manylion o'r nifer o achosion sy'n cael eu datrys gan ddileadau cytunedig yn ddiweddarch yn yr adroddiad hwn.

Gallwch ganfod rhagor o wybodaeth ar ein proses dileadau cytunedig ar ein gwefan.

# Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau

Mae gwybodaeth am wrandawiadau sydd i ddod a phenderfyniadau panel diweddar ar ein gwefan. Pan fydd penderfyniadau rheoleiddiol yn cael eu gwneud am addasrwydd rhywun i ymarfer, rydym yn esbonio'r rhesymau i'r unigolyn a gododd y pryderon â ni ac i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio dan sylw.

- Os ydym yn penderfynu cymryd camau rheoleiddiol i ddiogelu'r cyhoedd, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan er mwyn i bawb allu gweld y penderfyniadau rydym wedi eu cymryd a pham.
- Pan fydd panel yn gosod gorchymyn dros dro, rydym yn cyhoeddi'r canlyniad a'i nodi ar gofnod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar y gofrestr.
- Pan fydd arholwyr yn rhoi rhybudd neu'n cytuno ar ymgymeriadau, mae'r honiadau a'r canlyniad yn cael eu cyhoeddi â chofnod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar y gofrestr.
- Pan fydd panel yn penderfynu rhoi rhybuddiad, amodau ymarfer, atal, neu orchymyn taro i ffwrdd, rydym yn cyhoeddi rhesymau llawn y panel ac yn nodi'r canlyniad ar gofnod y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ar y gofrestr.

Mewn achosion sy'n ymwneud â iechyd unigolyn neu sydd â gwybodaeth bersonol sensitif, rydym yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth, fel arfer yn llai manwl. Y ffordd honno, rydym yn diogelu'r cyhoedd ac yn parchu preifatrwydd yr unigolyn. Pan benderfynwn gau'r achos heb unrhyw weithredu ychwanegol, nid ydym fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth oherwydd nad oes rheswm i wneud hynny i ddiogelu'r cyhoedd ac mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu preifatrwydd y rheini dan sylw. Mae rhagor o wybodaeth ar ein cyfarwyddyd cyhoeddiadau ar gael ar ein gwefan.

Mae ein cofrestr o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar-lein.

# Addasrwy-dd i Ymarfer: Ein gwaith yn 2023-2024

**“Rydym am i’n proses addasrwydd i ymarfer fod yn amserol, ystyriol a syml i bawb sy’n cymryd rhan.”**

Andrea Sutcliffe,
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Gwneud penderfyniadau cyflym a diogel ar ein hachosion addasrwydd i ymarfer yw ein blaenoriaeth rhif un ac mae’n rhan allweddol o’n dyletswyddau diogelu’r cyhoedd. Byddwn yn gweithredu bob amser os oes angen, gan gynnwys dileu gweithwyr proffesiynol o’n cofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol. Ond y rhan fwyaf o’r amser, y ffordd orau i gadw pobl yn ddiogel yw dysgu o ddigwyddiadau ac atal pethau tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

# Ein llwyth achosion

Fe wnaethom ddechrau’r flwyddyn eleni â llwyth achosion o 5,577 a gosod her uchelgeisiol i ni’n hunain i leihau hyn i 4,000 achos erbyn diwedd Mawrth 2024.

Er i ni wneud cynnydd cadarnhaol mewn lleihau’r nifer o achosion yn rhan gyntaf y flwyddyn (gostyngiad o 4.2 y cant yn y pum mis cyntaf), gwelsom ein llwyth achosion yn codi yn ail hanner y flwyddyn, sy’n effeithio ar ein gallu i symud achosion yn eu blaenau mewn ffordd amserol. Ar 31 Mawrth 2024, safodd ein llwyth achosion yn 5,994.

Gwelsom gynnydd sylweddol yn y nifer o bryderon a godwyd â ni eleni, yn aml y tu hwnt i’n lefelau rhagfynegi misol. Yn Chwefror 2024, fe wnaethom dderbyn 596 pryder newydd sydd y nifer uchaf rydym wedi ei dderbyn mewn mis unigol yn y pum mlynedd diwethaf.

| Blwyddyn | Atgyfeiria-dau a dder-byniwyd | Achosion a gwblhawyd | Llwyth achosion yn cau ar ddiwedd blwyddyn | Newid blynyddol mewn llwyth achosion | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwirioneddol | Canran |
| 2020–2021 | 5,547 | 3,701 | 6,357 | +1,851 | +41% |
| 2021–2022 | 5,291 | 5,170 | 6,469 | +112 | +2% |
| 2022–2023 | 5,068 | 5,832 | 5,577 | -892 | -14% |
| 2023–2024 | 5,774 | 5,559 | 5,994 | +417 | +7% |

Gwelsom y cynnydd mwyaf mewn niferoedd achosion yn ein camau sgrinio a dyfarnu. Yn ein cam archwliwr achos roedd gostyngiad o 30 y cant mewn niferoedd achosion.

Fe wnaethom fuddsoddi yn natblygiad offer cynllunio gweithlu a ganfu fod sawl maes o'n proses addasrwydd i ymarfer yn agos at ateb galw neu roedd heb ddigon o adnoddau ar hyn o bryd. Cyflwynodd hyn risgiau sylweddol yn erbyn y duedd o niferoedd yn codi o bryderon newydd. Rydym wedi mynd i'r afael â'r diffygion hyn trwy gytuno ar fuddsoddiad ychwanegol.

Mae ein hadran crynodeb ystadegol yn yr adroddiad hwn yn darparu rhagor o fanylion ar bryderon newydd a dderbyniwyd trwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i symud achosion trwy ein proses mor gyflym a diogel ag y gallwn i wella'r profiad i bawb sy'n cymryd rhan ac i leihau ein llwyth achosion. Ym Mawrth 2024, cymeradwyodd ein Cyngor ein cynllun gwella addasrwydd i ymarfer newydd er mwyn i ni allu:

- parhau i wneud penderfyniadau sy'n cadw pobl yn ddiogel
- gwneud hyn yw'r ffordd fwyaf amserol ac ystyriol bosibl
- ei wneud mewn ffordd fydd yn gynaliadwy, ymhell i'r dyfodol.

Gallwch ddarllen rhagor o fanylion am ein cynlluniau gwella yn adran 'ffocws y dyfodol' yr adroddiad hwn.

# Sicrhau bod pobl wrth graidd ein gwaith

Mae pobl wrth graidd popeth rydym yn ei wneud. O'r cyhoedd sy'n ein helpu i gadw'n ddiogel, a'r rheini sy'n codi pryderon, i'r gweithwyr proffesiynol rydym yn ymchwilio iddynt, i'n cydweithwyr, y mae eu hempathi, sgiliau, a gwybodaeth yn cynorthwyo'r rheini a effeithir.

Rydym yn gwybod bod ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer yn gallu bod yn adeg anhygoel o gynyrfiadol ac o straen i bawb sy'n cymryd rhan:

- **Mae aelodau'r cyhoedd** yn gwneud atgyfeiriadau yn aml ar ôl profi neu bod yn dystion i enghreifftiau trallodus o ofal, sy'n gallu eu gadael yn teimlo'n agored i niwed ac yn ddig.
- I'r **gweithwyr proffesiynol** dan sylw, mae bod yn destun ymchwiliad yn gallu achosi lefelau uchel o orbryder, straen, a chywilydd ac o bosibl diwedd i'w gyrfa.

Mae gennym amrediad o adnoddau ar gael i bobl sy'n anelu at eu cynorthwyo trwy ein proses addasrwydd i ymarfer. Gall y cyhoedd gysylltu â'n llinell gymorth a chyrchu ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus. Mae'r Llinell Ofal Addasrwydd i Ymarfer ar gael i unrhyw weithwyr proffesiynol a all fod yn destun ymchwiliad. Mae'n Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn darparu dolen uniongyrchol i gyflogwyr gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Yn 2023–2024, cysylltodd 531 aelod o'r cyhoedd â'n llinell gymorth a chafodd 1,162 o alwadau eu gwneud i linell ffôn y cyflogwyr ar gyfer cyngor ar addasrwydd unigolion i ymarfer.

Rydym hefyd yn rhedeg llinell gymorth atgyfeirio lle rydym yn esbonio pwy ydym ni, ai ni yw'r sefydliad cywir i ymdrin â'r pryderon, sut y gallwn helpu pobl a pha gymorth rydym yn gallu ei gynnig iddynt. Rydym yn gallu siarad pobl trwy'r camau o wneud yr atgyfeiriad i ddarparu'r wybodaeth orau i'n helpu ni i ddeall am beth mae'r pryder ac ymchwilio iddo'n briodol. Fe wnaethom lansio'r llinell gymorth yn Rhagfyr 2022. Yn 2023–2024, fe wnaethom ddertbyn 5,925 galwad i'r llinell gymorth hon.

Rydym bob amser yn ceisio cyfeirio pobl at y gwasanaethau hyn i gael y cymorth a'r gefnogaeth y gall fod eu hangen arnynt. Mae'n Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus yn gweithio ar draws y broses addasrwydd i ymarfer ac mae'n gallu darparu gwybodaeth ar sut mae'r broses yn gweithio ac mae'n gallu ymgysylltu â phobl a all fod yn cael trafferth â'n prosesau a gwrando arnynt.

Yn 2023–2024, atgyfeiriodd ein gweithwyr achos 781 o bobl at ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus i'w cynorthwyo trwy ein prosesau yn well.

Fe wnaethom gydnabod y gall fod angen cymorth ychwanegol ar rai pobl sydd ag anghenion cymhleth ychwanegol. Felly yn 2019 ni oedd y rheoleiddiwr iechyd cyntaf i dreialu gwasanaeth eiriolaeth i bobl oedd yn cymryd rhan yn ein proses addasrwydd i ymarfer. Rydym wedi parhau i arwain y ffordd mewn datblygu'r gwasanaeth hwn sydd yn awr hefyd yn cynnig y defnydd o gyfryngwyr i bobl a all fod ag angen gwasanaethau lleferydd ac iaith ar gyfer datganiadau tystion neu gymorth mewn gwrandawiad.

Ers i ni greu ein fframwaith eiriolaeth a chyfryngwyr, rydym wedi gweld dau reoleiddiwr gofal iechyd arall yn y DU yn ymuno â'r gwasanaethau. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ehangu i eraill yn y dyfodol.

Yn 2023–2024, roedd chwech achos o bobl yn defnyddio ein gwasanaeth cvfryngwyr (un y flwyddyn flaenorol) ac wyth atgyfeiriad i'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol. Yn 2024–2025 byddwn yn gweithio gyda thimau ar draws ein proses addasrwydd i ymarfer i sefydlu dealltwriaeth a buddion y gwasanaeth yn well er mwyn ei gynnig i fwy o bobl yn gynharach yn y broses.

# Cynorthwyo a diogelu gweithwyr proffesiynol

Mae ein polisïau a phrotocolau Diogelu a Risg Hunanladdiad a Hunan-niweidio wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar i gynorthwyo cydweithwyr i adnabod a rheoli unrhyw bryderon diogelu yn well. Rydym yn adolygu pob atgyfeiriad i adnabod unrhyw gymorth y gall fod eu hangen arnynt a, lle'n briodol, yn gwneud atgyfeiriadau i sefydliadau allanol.

Rydym yn parhau i weld cynnydd mewn pryderon diogelu a adroddir. Yn 2023–2024, cafodd 265 o bryderon diogelu eu codi mewn perthynas â'n proses addasrwydd i ymarfer.

Rydym yn cofnodi achosion lle rydym yn dysgu bod gweithiwr proffesiynol yn anffodus wedi cymryd ei fywyd ei hun tra bo'n hachos yn parhau.

Yn 2023–2024, roedd pum marwolaeth wedi'u cofnodi (2022–2023: tair marwolaeth wedi'u cofnodi). Mae pob achos yn cael ei adolygu ar lefel uwch i sicrhau ein bod yn adnabod unrhyw ddysgu i wella'n prosesau. Cyfeirir gweithwyr proffesiynol fel mater o drefn at ein Llinell Ofal Addasrwydd i Ymarfer annibynnol, sy'n cynnig cyngor cyfrinachol emosiynol ac ymarferol a chymorth i nyrsys, bydwragedd, a chymdeithion nyrsio.

Mae rhai o'r camau rydym wedi eu cymryd i wella'r cymorth rydym yn ei ddarparu i weithwyr proffesiynol yn cynnwys cyflwyno pecyn cymorth i'n cydweithwyr i'w helpu i gynnal sgyrsiau cynorthwyol â gweithwyr proffesiynol a chyfeirio at wasanaethau cymorth priodol.

Ochr yn ochr â hyn rydym wedi cyflawni hyfforddiant i dimau o fewn Rheoleiddio Proffesiynol ar gynnal sgyrsiau effeithiol cefnogol.

Y flwyddyn hon, rydym hefyd wedi cyflawni hyfforddiant diogelu i gydweithwyr ar draws ein cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Proffesiynol, gan gynnwys ein timau ymchwilio a dyfarnu. Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant diogelu i aelodau'r panel o'r Pwyllgorau Ymchwilio ac Addasrwydd i Ymarfer.

9I unigolion sy'n gofyn am gymorth ychwanegol, rydym wedi treialu'r defnydd o gynlluniau cyfathrebu a diogelwch arbennig. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gryhau'r cymorth rydym yn gallu ei ddarparu i weithwyr cofrestredig ymhellach sy'n mynd trwy ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.

# Hyrwyddo cyfraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant (EDI)

Nid ydym yn gallu sicrhau bod pobl wrth graidd ein gwaith heb ganolbwyntio ar gyflawni ein cyfrifoldebau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd o'n gwaith. Ym Mai 2022 fe wnaethom ddechrau rhoi ein cyllun corfforaethol EDI 2022-2025 ar waith sy'n amlinellu ein nodau ar gyfer bod yn rheoleiddiwr a chyflogwr cynhwysol, effeithiol, gan gynnwys:

- y camau a gymerwn i gyflawni profiadau tecach i'r bobl sy'n gweithio i ni a'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u cofrestru â ni, yn ogystal â'r bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau ac sy'n rhyngweithio â'n gweithwyr proffesiynol a chydweithwyr
- sut y byddwn yn craffu ar ein prosesau a'n penderfyniadau ar gyfer nyrsys a bydwragedd proffesiynol, a'n gweithwyr, yn ogystal â'r gwaith y byddwn yn ei wneud gyda'n partneriaid
- sut y byddwn yn adeiladu sylfeini mewnol cadarn yn yr NMC sy'n ein rhoi mewn safle gwell i ymateb i'r amgylchedd allanol ehangach.

Yn 2024–2025, byddwn yn cryfhau ein cyfathrebu am nodau cyfraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Proffesiynol trwy addasu ein fframwaith EDI corfforaethol i set o nodau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo ein cydweithwyr i ddeall y newidiadau rydym am eu gweld i bobl ar ein

cofrestr, pobl sy'n ymuno â'n cofrestr, y rheini sy'n gwnud atgyfeiriadau atom, aelodau panel a nhw eu hunain.

Rydym wedi gwneud nifer o ddiweddariadau i'n cyfarwyddyd gan gynnwys cyhoeddi ein canllaw Rhyddid Mynegiant ac Addasrwydd i Ymarfer. Mae'n anelu at gynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau mewn cydbwyso hawliau a mesurau diogelu, ond mae'n egluro y bydd ymddygiadau gwahaniaethol yn bryder rheoleiddiol bob amser.

Mae diweddariadau i'n canllaw gorchmynion dros dro yn amlinellu pan all gorchmynion dros dro fod yn angenrheidiol mewn achosion â phryderon gwahaniaethu ar sail naill ai diogelu'r cyhoedd neu fudd y cyhoedd.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosesau rheoleiddiol yn deg i bawb ac nad oes neb yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd pwy ydyn nhw. Datgelodd ein hymchwil Uchelgeisiol dros Newid a gyhoeddwyd yn 2022 fod gweithwyr proffesiynol gwrywaidd a/neu du (ymhlith grwpiau eraill) yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio at ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Dangosodd hefyd fod cyflogwyr yn atgyfeirio mwy o weithwyr proffesiynol gwrywaidd a/neu Du o gymharu â'n cofrestr, ac mewn rhai enghreifftiau, o gymharu â'u gweithluoedd eu hunain hefyd. Yn olaf, fe wnaethom ganfod ein bod yn cau mwy o achosion a atgyfeirir atom gan gyflogwyr sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol gwrywaidd a/neu Du ar gamau cynharach o addasrwydd i ymarfer o gymharu ag atgyfeiriadau am grwpiau eraill a wneir gan gyflogwyr.

Fe wnaethom ymrwymo i ddeall hyn mwy ac i gymryd camau i fynd i'r afael â hyn a chynorthwyo atgyfeiriadau priodol. Rydym wedi bod yn dadansoddi ein data am y pryderon a godwyd â ni rhwng 2019 a 2023. Mae'r adolygiad hwn yn anelu at ddeall pam mae'r gwahaniaethau hyn yn digwydd ac a yw tuedd neu wahaniaethu yn ein prosesau penderfynu yn eu hesbonio. Bydd yr adolygiad hefyd yn archwilio ein polisïau a'n cyfarwyddyd presennol i asesu a ydynt yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd ac yn dileu gwahaniaethu yn effeithiol.

Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad i wneud gwelliannau lle'n briodol i'n proses addasrwydd i ymarfer er mwyn i'r profiad fod yn decach i'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio.

Yn 2024–2025 bydd ein tîm ymestyn (y Gwasanaeth Dolen Cyflogwyr) yn gweithio gyda chyflogwyr i ddeall mwy am y canfyddiadau hyn a'r mesurau maen nhw'n eu gweithredu i leihau tuedd a sicrhau tegwch yn eu hatgyfeiriadau.

Rydym yn gwybod bod ymarfer da yn y sector iechyd a gofal ynghylch sut mae sefydliadau yn rheoli achosion disgyblu ac atgyfeiriadau, ac rydym am rannu hyn â'r cyflogwyr rydym yn gweithio gyda nhw. Byddwn yn dadansoddi canlyniadau'r trafodaethau hynny yn ddiweddarach y flwyddyn hon a gobeithiwn y bydd hyn yn allweddol i ddylanwadu ar a chynorthwyo ymarfer gorau mewn gwneud penderfyniadau.

Pob blwyddyn rydym yn cyhoeddi data EDI am y gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'n proses addasrwydd i ymarfer, er enghraifft am atgyfeiriadau atom ni a chanlyniadau addasrwydd i ymarfer hefyd. Gall y data hyn gael eu canfod ar ein gwefan.

**“Mae angen i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio deimlo eu bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi a’u cynorthwyo er mwyn iddynt allu cyflawni’r gofal gorau posibl i bobl. Mae hynny’n cynnwys pob agwedd o’u bywydau gwaith, gan gynnwys ar yr achlysuron hynny pan atgyfeirir gweithwyr proffesiynol at ein proses addasrwydd i ymarfer.”**

Matthew McClelland,
Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth a Mewnwelediad

# Pryderon i’n hymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer

Yn 2023 cafodd pryderon chwythu’r chwiban eu codi am yr ymagwedd a gymerwyd gennym mewn rhai o’n hachosion addasrwydd i ymarfer oedd yn cynnwys honiadau o wahaniaethu, camymddwyn rhywiol, camdriniaeth ddomestig neu ddiogelu.

Fe wnaethom benodi Ijeoma Omambala Cwnsler y Brenin yn Nhachwedd 2023 i gyflawni ymchwiliadau i’r achosion penodol a godwyd fel rhan o’r pryderon am ein gwaith achosion rheoleiddiol a’n hymdriniaeth â phryderon chwythu’r chwiban. Bydd y canfyddiadau o’r ymchwiliadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn haf 2024.

Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o’r canfyddiadau a byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i’r afael â nhw, y byddwn yn adrodd yn gyhoeddus yn ei erbyn, gan gynnwys yn adroddiad blynyddol addasrwydd i ymarfer y flwyddyn nesaf.

# Crynodeb ystadegol 2023–2024

# Ein prif ddangosyddion perfformiad

Er ein bod wedi cynnal ffocws ar geisio lleihau ein llwyth achosion eleni, ym mhob achos, rydym yn gweithio bob amser i gyrraedd canlyniad sy'n diogelu'r cyhoedd orau ar y cyfle cynharaf posibl.

Mae'n prif ddangosyddion perfformiad yn olrhain ein cynnydd yn y maes hwn ac rydym yn adrodd yn gyhoeddus ar y rhain. Yn 2023–2024, ni wnaethom gyrraedd ein targedau am unrhyw un o'n dangosyddion perfformiad allweddol.

## Gorchmynion dros dro a osodwyd

Lle mae'n angenrheidiol, rydym yn anelu at osod 80 y cant o orchmynion dros dro (IO) o fewn 28 diwrnod o dderbyn y pryderon. Yn 2023–2024, fe wnaethom osod 67 y cant o orchmynion dros dro o fewn 28 diwrnod o dderbyn y pryderon.

Mae hyn yn welliant bach ar y flwyddyn flaenorol (2022–2023: 65 y cant), ond mae o dan ein targed o hyd. Effeithiodd sawl factor ar ein gallu i gyrraedd ein perfformiad yn y maes hwn:

- Cafodd nifer uwch o atgyfeiriadau eu derbyn gan roi pwysau ar ein hadnoddau.
- Gwelsom nifer gynyddol o unigolion oedd ag anghenion ychwanegol neu bryderon diogelu a gynyddodd y fframiau amser i ni gael yr wybodaeth ofynnol ar gyfer y cais gorchymyn dros dro.
- Fe wnaethom barhau i weld panelau yn dyfarnu gorchmynion dros dro am resymau er budd tegwch i'r gweithiwr proffesiynol, megis caniatáu rhagor o amser i'r gweithiwr proffesiynol baratoi ei achos. Yn 2023–2024, roedd 73 gwrandawiad gorchymyn dros dro wedi'u gohirio gan banel.

## Amseroldeb mewn cwblhau achosion

Rydym yn anelu at gwblhau 80 o'n hachosion o fewn 15 mis o dderbyn y pryderon. Yn 2023–2024, fe wnaethom gwblhau 61 y cant o achosion o fewn 15 mis o dderbyn pryderon sydd yr un peth â'r flwyddyn flaenorol. Gyda'r pwysau cynyddol a achoswyd gan y nifer gynyddol o atgyfeiriadau, nid oeddem yn disgwyl

Gyda'r pwysau cynyddol a achoswyd gan y nifer gynyddol o atgyfeiriadau, nid oeddem yn disgwyl cyrraedd y targed hwn eleni. Fodd bynnag, rydym yn siomedig o beidio â gweld unrhyw gynnydd arwyddocaol ers y flwyddyn ddiwethaf, gan gydnabod yr effaith mae hyn yn ei chael ar y rheini sy'n cymryd rhan yn ein hachosion. Mae wedi golygu hefyd nad ydym wedi cyrraedd safon Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer amseroldeb symud achos yn ei flaen.

# Pryderon a dderbyniwyd

## Nifer o bryderon

Yn 2023–2024, fe wnaethom dderbyn 5,774 pryder newydd, cynnydd (14 y cant) o'r flwyddyn ddiwethaf (2022–2023: 5,068). Parhaodd ein cofrestr i dyfu eleni, gan gynyddu i 826,418 o nyrsys, bydrwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr o 31 Mawrth 2024.

| | 2023–2024 | 2022–2023 | 2021–2022 |
|---|---|---|---|
| Nifer o bryderon a dderbyniwyd | 5,774 | 5,068 | 5,291 |
| Canran o'r gofrestr | 0.69% | 0.64% | 0.70% |

## Ffynhonnell pryderon

Mae tabl 1 yn dangos dadansoddiad o bwy y gwnaethom dderbyn pryderon ganddynt yn 2023–2024. Mae cynnydd nodedig wedi bod yn y nifer o bryderon a godwyd eleni gan gyflogwyr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â chyflogwyr i'w helpu i benderfynu a ddylai pryder gael ei atgyfeirio atom, gan gynnwys ein hymgysylltu wedi'i dargedu i leihau'r nifer o atgyfeiriadau anghymesur am weithwyr proffesiynol gwrywaidd a/neu Du. Yn yr un modd, rydym wedi gweld cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol mewn pryderon gan aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys y bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd.

**Tabl 1: Ffynhonnel pryderon a atgyfeiriwyd atom**

| Pwy atgyfeiriodd bryderon atom | 2023–2024 | | 2022–2023 | 2021–2022 |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer o bryderon newydd | Canran o bryderon newydd | Canran o bryderon newydd | Canran o bryderon newydd |
| Claf/cyhoedd | 2,011 | 35% | 33% | 38% |
| Hunanatgyfeiriad | 418 | 7% | 9% | 7% |
| Cyflogwr | 1,754 | 30% | 26% | 24% |
| Agorwyd gan yr NMC | 352 | 6% | 4% | 4% |
| Gweithiwr proffesiynol arall ar y gofrestr | 429 | 7% | 9% | 6% |
| Rheoleiddiwr arall | 15 | <1% | <1% | <1% |
| Atgyfeiriwr anhysbys | 448 | 8% | 12% | 13% |
| Unrhyw hysbysydd arall | 347 | 6% | 6% | 8% |
| **Cyfanswm** | **5,774** | **100%** | **100%** | **100%** |

Rydym yn asesu pob pryder newydd a godir â ni i sicrhau mai ni yw'r sefydliad cywir i weithredu ac a yw'r pryderon yn ddigon difrifol bod angen cymryd camau rheoleiddiol.

Mae'n canllaw sgrinio yn amlinellu'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i benderfynu a yw'r pryderon i ni, gan gynnwys a yw'r unigolyn mae'r pryderon yn ei gylch yn nyrs, bydwraig neu gymaith nyrsio cofrestredig. Os nad ydym yn gallu, neu nad ydym, yn adnabod yr unigolyn o bryder fel rhywun ar ein cofrestr byddwn yn cau'r achos.

Yn 2023–2024 ni wnaethom barhau â 1,328 achos lle ni allem naill ai adnabod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, neu ni allai'r honiad fyth fod yn bryder difrifol (Megis lle mae unigolyn wedi derbyn hysbysiad cosb sefydlog am drosedd parcio),felly ni wnaethom gymryd camau ychwanegol i sefydlu a yw'r unigolyn a atgyfeiriwyd ar ein cofrestrr. (2022–2023: 1,323 a 2021–2022:1,207).


# Pryderon fesul gwlad y cyfeiriad cofrestredig*

## Yr Alban

**374** achosion

**10%** pryderon llwyr

**9%** gwlad fel a cyfran o'r gofrestr



## Gogledd Iwerddon

**123** achosion

**3%** pryderon llwyr

**3%** gwlad fel a cyfran o'r gofrestr

## Lloegr

**3,108** achosion

**79%** pryderon llwyr

**62%** gwlad fel a cyfran o'r gofrestr

## Cymru

**220** achosion

**6%** pryderon llwyr

**4%** gwlad fel a cyfran o'r gofrestr

## Tramor/UE

**95** achosion

**2%** pryderon llwyr

**23%** gwlad fel a cyfran o'r gofrestr



*Nid yw'r niferoedd a ddatganwyd yn adio i 100% oherwydd talgrynnu

# Pryderon fesul math o gofrestriad

Mae pobl yn gallu bod ar fwy nac un rhan o’n cofrestrau, er enghraifft fel nyrs a bydwraig. Mae hyn yn cael ei adnabod fel **cofrestriad deuol**. Mae tabl 2 yn dangos y pryderon newydd a dderbyniwyd yn 2023–2024 wedi’u dadansoddi fesul math o gofrestriad.

**Tabl 2: Pryderon fesul math o gofrestriad**

| | 2023–2024 | | 2022–2023 | 2021–2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Math o gofrestriad** | **Nifer o atgyfeiriadau newydd** | **Canran cyfanswm yr atgyfeiriadau (canran o weithwyr proffesaiynol ar y gofrestr)** | **Canran cyfanswm yr atgyfeiriadau** | **Canran cyfanswm yr atgyfeiriadau** |
| Nyrs | 3,645 | 93% (93%) | 94% | 94% |
| Bydwraig | 232 | 6%(5%) | 5% | 6% |
| Cofrestriad deuol | 2 | <1%(<1%) | <1% | <1% |
| Cydymaith nyrsio | 41 | 1%(1%) | <1% | <1% |
| **Cyfanswm** | **3,920** | **100%** | **100%** | **100%** |

# Canlyniadau asesiad cychwynnol

Y flwyddyn hon, 2023–2024, fe wnaethom benderfynu peidio ag ymchwilio i 3,845 o bryderon ar ôl i ni gwblhau ein hasesiad cychwynnol naill ai oherwydd nad oeddem yn credu bod y pryderon yn gofyn am weithredu rheoleiddiol neu oherwydd nad oeddem yn gallu adnabod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Mae hyn yn gyfystyr â 72 y cant o ganlyniadau asesiad cychwynnol yn cael eu barnu i ofyn am ddim ymchwilliad ychwanegol. Mae hyn i lawr ychydig o 2022–2023 pan wnaethom gau 76 y cant ar ôl asesiad cychwynnol, fodd bynnag o ystyried y cynnydd o 14 y cant mewn atgyfeiriadau atom eleni, rydym yn credu bod hyn yn dangos ein bod yn parhau i wneud cynnydd da tuag at ein nod o wneud penderfyniadau terfynol ar y cam cynharaf posibl o’n proses.

Fe wnaethom atgyfeirio 531 pryder at gorff rheoleiddio arall.

# Gorchmynion dros dro

Yn 2023–2024, gosododd ein panelau orchmynion dros dro mewn 622 achos i ddiogelu'r cyhoedd tra bo'n hymchwiliadau yn parhau, sy'n ostyngiad o ddeg y cant o'r flwyddyn flaenorol (2022–2023: 688 a 2021–2022: 504). Mae tabl 3 yn dangos y dadansoddiad rhwng y ddau fath o orchymyn dros dro mae ein panelau yn gallu eu gosod.

**Tabl 3: Gorchmynion dros dro a osodwyd**

| Penderfyniadau gorchymynion dros dro | 2023–2024 | | 2022–2023 | | 2021–2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer o orchmynion dros dro | Canran o orchmynion dros dro | Nifer o orchmynion dros dro | Canran o orchmynion dros dro | Nifer o orchmynion dros dro | Canran o orchmynion dros dro |
| Amodau ymarfer dros dro | 337 | 54% | 364 | 53% | 264 | 52% |
| Atal dros dro | 285 | 46% | 324 | 47% | 240 | 48% |
| **Cyfanswm** | **622** | **100%** | **688** | **100%** | **504** | **100%** |

Mae tabl 4 yn dadansoddi'r nifer o orchmynion dros dro a osodwyd gan fath o gofrestriad. Nid ydym wedi gweld unrhyw newid yn y gyfran o orchmynion dros dro a osodwyd ar unrhyw un o'r mathau cofrestru.

**Tabl 4: Gorchmynion dros dro a osodwyd fesul math o gofrestriad**

| Penderfyniadau gorchymyn dros dro | 2023–2024 | | | | 2022–2023 | | | | 2021–2022 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith nyrsio | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith nyrsio | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith nyrsio | Deuol |
| Amodau ymarfer dros dro | 320 (54%) | 16 (67%) | 1 (25%) | 0 (0%) | 343 (53%) | 18 (62%) | 3 (50%) | 0 (0%) | 249 (52%) | 15 (68%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Atal dros dro | 274 (46%) | 8 (33%) | 3 (75%) | 0 (0%) | 310 (47%) | 11 (38%) | 3 (50%) | 0 (0%) | 231 (48%) | 7 (32%) | 0 (0%) | 2 (100%) |
| **Cyfanswm** | **594** | **24** | **4** | **0** | **653** | **29** | **6** | **0** | **480** | **22** | **0** | **2** |

# Canlyniadau achwilwyr achosion

Yn 2023–2024, gwnaeth ein harchwilwyr achosion 1,588 penderfyniad (2022–2023: 1,210 a 2021–2022: 1,582) ar ddiwedd ymchwiliad.

Rydym yn darparu cyfarwyddyd eglur i'n gwneuthurwyr penderfyniadau, gan gynnwys archwilwyr achosion, ar yr hyn sy'n ofynnol mewn penderfyniad. Mae'r cyfarwyddyd yn helpu sicrhau bod ein penderfyniadau yn gyson.

Mae tabl 5 yn dadansoddi penderfyniadau'r archwilwyr achosion fesul canlyniad. Y flwyddyn hon rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol parhaol yn y nifer o achosion sy'n cael eu datrys ar y cam archwiliwr achos trwy rybudd neu ymgymeriad. Roedd cynnydd o 92 y cant yn y nifer o ymgymeriadau yn 2023–2024.

Mae ymgymeriadau, ar yr amod nad oes materion o ran agwedd, yn caniatáu i weithiwr proffesiynol fynd i'r afael â materion yn eu hymarfer a all beri risg. Mae ymgymeriad yn dangos ein bod yn ystyried bod gan weithiwr proffesiynol y potensial i ddangos ei fod yn gallu ymarfer yn ddiogel heb gyfyngiad ac maen nhw wedi'u cynllunio i'w cynorthwyo mewn arddangos hynny.

Nid ydynt yn enghreifftiau o gau achosion, ond yn hytrach yn benderfyniad achos i'w ateb lle gellir osgoi gwrandawiad llawn. Rydym yn cyhoeddi pob ymgymeriad a gytunir yn unol â'n cyfarwyddyd cyhoeddi ac rydym yn cadw canlyniadau o dan adolygiad. Os yw gweithiwr proffesiynol yn methu â chydymffurfio â thelerau'r ymgymeriad, bydd yr archwilwyr achos yn cynnal adolygiad ychwanegol o'r ymgymeriad, ac, os oes angen, yn atgyfeirio'r mater ymlaen am wrandawiad o flaen panel o'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

Yn Ebrill 2022, fe wnaethom newid ein cyfarwyddyd ymgymeriadau, gan ddileu'r angen i bryderon gael eu derbyn a chaniatáu i ymgymeriadau gael eu hargymell mewn mwy o achosion; mae hyn wedi cael ei gadarnhau ymhellach gan gyflwyno'r Canllaw Ymarfer Da sy'n argymell ymgymeriadau ar gyfer achosion lle mae pryderon clinigol.

### Tabl 5: Penderfyniadau archwilwyr achosion fesul canlyniad

| Penderfyniadau archwilwyr achosion | 2023-2024 | 2022-2023 | 2021-2022 |
|---|---|---|---|
| | Nifer yr achosion | Nifer yr achosion | Nifer yr achosion |
| Atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod | 800 (50%) | 666 (55%) | 741 (47%) |
| Cyngor | 9 (<1%) | 6 (<1%) | 14 (<1%) |
| Rhybudd | 110 (7%) | 69 (6%) | 65 (4%) |
| Ymgymeriad | 111 (7%) | 58 (5%) | 23 (1%) |
| Dim gweithredu ychwanegol | 558 (35%) | 411 (34%) | 739 (47%) |
| **Cyfanswm** | **1,588** | **1,210** | **1,582** |

Mae tabl 6 yn dadansoddi'r nifer o benderfyniadau archwilwyr achosion fesul math o gofrestriad.

**Tabl 6: Nifer o benderfyniadau fesul math o gofrestriad**

| Penderfyniad archwiliwr achos | 2023–2024 | | | | 2022–2023 | | | 2021–2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Cydymaith nyrsio | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad neu gyfarfod | 766 (51%) | 31 (49%) | 3 (38%) | 0 (0%) | 632 (55%) | 33 (55%) | 1 (50%) | 709 (47%) | 30 (46%) | 2 (67%) |
| Cyngor | 7 (<1%) | 2 (3%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 5 (<1%) | 1 (2%) | 0 (0%) | 14 (<1%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Rhybudd | 105 (7%) | 4 (6%) | 1 (13%) | 0 (0%) | 66 (6%) | 3 (5%) | 0 (0%) | 63 (4%) | 2 (3%) | 0 (0%) |
| Ymgymeriad | 105 (7%) | 4 (6%) | 1 (13%) | 1 (100%) | 54 (5%) | 3 (5%) | 1 (50%) | 20 (1%) | 3 (5%) | 0 (0%) |
| Dim gweithredu ychwanegol | 533 (35%) | 22 (35%) | 3 (38%) | 0 (0%) | 391 (34%) | 20 (33%) | 0 (0%) | 708 (47%) | 30 (46%) | 1 (33%) |
| **Cyfansymiau** | **1,516** | **63** | **8** | **1** | **1,148** | **60** | **2** | **1,514** | **65** | **3** |

Y flwyddyn hon yw'r tro cyntaf rydym wedi gweld penderfyniad a gafodd ei wneud gan yr archwilwyr achosion am gydymaith nyrsio ers i'r rôl gael ei chyflwyno yn Lloegr yn 2019 (roedd dwy Gydymaith Nyrsio a gafodd eu taro i ffwrdd yn 2022–2023 yn atgyfeiriadau uniongyrchol i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer).

Mae archwilwyr achosion yn gweithio mewn parau. Mae un yn nyrs neu fydwraig gofrestredig, ac mae un yn unigolyn lleyg. Os nad yw'r archwilwyr achosion yn gallu cytuno ar ganlyniad, mae'n rhaid iddynt atgyfeirio'r achos at banel annibynnol o'r Pwyllgor Ymchwilio am benderfyniad. Ni atgyfeiriwyd achosion o'r fath i'r Pwyllgor Ymchwilio yn 2023–2024.

# Canlyniadau gwradawiadau a chyfarfodydd

Yn 2023–2024, cyrhaeddodd ein panelau 620 penderfyniad terfynol ar achosion (2022–2023: 553 a 2021–2022: 414) trwy gyfarfodydd a gwrandawiadau. Mae tabl 7 yn dadansoddi penderfyniadau'r panel fesul y math o ganlyniad.

Rydym yn parhau i geisio adnabod cyfleoedd i ddatrys mwy o achosion ar gamau cynharach o'r broses addasrwydd i ymarfer, gan ganiatáu i ni ddiogelu'r cyhoedd a gweithiwr proffesiynol i ymarfer yn ddiogel tra'n lleihau effaith y broses addsrwydd i ymarfer ar y rheini sy'n cymryd rhan yn yr achos trwy osgoi gwrandawiad llawn. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol a'u cynrychiolwyr, a lle mae'r archwilwyr achosion yn atgyfeirio achos yn ei flaen, byddwn yn ceisio datrys yr achos yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

**Tabl 7: Penderfyniadau'r panel**

| Penderfyniad y panel | 2023–2024 | | 2022–2023 | | 2021–2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Taro i ffwrdd | 214 | 35% | 191 | 35% | 109 | 26% |
| Atal | 158 | 25% | 155 | 28% | 124 | 30% |
| Amodau ymarfer | 85 | 14% | 65 | 12% | 61 | 15% |
| Rhybuddiad | 31 | 5% | 31 | 6% | 37 | 9% |
| **Is-gyfanswm** | **488** | **79%** | **442** | **80%** | **331** | **80%** |
| Ffeithiau heb eu profi | 38 | 6% | 41 | 7% | 22 | 5% |
| Addasrwydd i Ymarfer heb ei amharu | 94 | 15% | 67 | 12% | 61 | 15% |
| Ataliwyd achos | 0 | 0% | 3 | <1% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm penderfyniadau'r panel** | **620** | **100%** | **553** | **100%** | **414** | **100%** |

**Tabl 8: Canlyniadau panel fesul math o gofrestriad**

| Penderfyniad y panel | 2023-2024 | | | | 2022-2023 | | | | 2021-2022 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Cydymaith nyrsio | Nyrs | Bydwraig | Deuol | Cydymaith nyrsio | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Taro i ffwrdd | 210 (35%) | 4 (18%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 181 (34%) | 6 (29%) | 2 (67%) | 2 (100%) | 99 (26%) | 7 (30%) | 3 (100%) |
| Atal | 152 (26%) | 6 (27%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 151 (29%) | 4 (19%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 123 (32%) | 1 (4%) | 0 (0%) |
| Amodau ymarfer | 80 (13%) | 4 (18%) | 0 (0%) | 1 (100%) | 60 (11%) | 5 (24%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 57 (15%) | 4 (17%) | 0 (0%) |
| Rhybuddiad | 31 (5%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 28 (5%) | 2 (10%) | 1 (33%) | 0 (0%) | 32 (8%) | 5 (22%) | 0 (0%) |
| **Is-gyfanswm** | **473** | **14** | **0** | **1** | **420** | **17** | **3** | **2** | **311** | **17** | **3** |
| Ffeithiau heb eu profi | 37 (6%) | 1 (5%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 40 (8%) | 1 (5%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 20 (5%) | 2 (9%) | 0 (0%) |
| Addasrwydd i Ymarfer heb ei amharu | 85 (14%) | 7 (32%) | 2 (100%) | 0 (0%) | 64 (12%) | 3 (14%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 57 (15%) | 4 (17%) | 0 (0%) |
| Ataliwyd achos | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 3 (<1%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| **Cyfansymiau cyffredinol** | **595** | **22** | **2** | **1** | **527** | **21** | **3** | **2** | **388** | **23** | **3** |

# Yr honiadau y canfuwyd eu bod wedi'u profi yn y dyfarniad

Mae'r tri chategori uchaf o honiadau y canfuwyd eu bod wedi'u profi yn aros yr un fath â blynyddoedd blaenorol. Yn 2023-2024, gofal cleifion oedd y categori mwyaf cyffredin, ac yna rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ac yna cadw cofnodion).

Mae'r tabl isod yn dangos y themâu honiadau mwyaf cyffredin (lefel un) a chategorïau manylach o fewn pob thema (lefel dau).

| Honiadau Lefel Un (% o Gyfanswm yr Honiadau) | Honiadau Lefel Dau |
|---|---|
| Gofal Cleifion (23%) | Diagnosio, arsylwi, asesu |
| | Ymateb amhriodol neu wedi'i hoedi i arwyddion negyddol, dirywiad neu ddigwyddiadau |
| Rhagnodi a Rheoli Meddyginiaethau (16%) | Peidio â rhoi neu wrthod rhoi meddyginiaeth |
| | Gweinyddwyd dos anghywir |
| Cadw Cofnodion (13%) | Cofnodion cleifion neu glinigol |
| | Cofnodion cyffuriau neu feddyginiaeth |

Bydd ein Hadroddiad Cipolwg ar Addasrwydd i Ymarfer cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2024 a bydd yn rhoi cipolwg pellach ar themâu a phatrymau'r achosion a dderbyniwn.

# Cofnodion cofrestr twyllodrus neu anghywir

Mae ein panelau yn ystyried honiadau bod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi cael eu hychwanegu at y gofrestr yn anghywir neu drwy dwyll. Os ydynt yn canfod yr honiadau wedi'u profi, gall y panel gyfarwyddo'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnod ar y gofrestr.

Yn 2023–2024, cyfarwyddodd ein panelau Cofrestrydd i ddileu nyrs neu fydwraig o'r gofrestr mewn 35 achos (2022–2023: 54 a 2021–2022: 38).

# Pryderon am brofi yng Nghanolfan Profion Technolegau Yunnik, Nigeria

Rydym yn gofyn i weithwyr proffesiynol hyddysg rhyngwladol ymgymryd â phrawf dau ran o gymhwyster sy'n dangos bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i ddarparu gofal o ansawdd uchel yn y DU. Mae'n rhaid i'r prawf hwn gael ei gymryd cyn iddynt gael eu caniatáu i ymuno â'n cofrestr. Mae'r prawf yn cynnwys prawf wedi'i seilio ar gyfrifiadau (CBT), y byddant fel arfer yn ei sefyll yn eu gwlad breswyl, a phrawf ymarferol (OSCE) wedi'i ymgymryd yn y DU.

Ym Mai 2023 tynnwyd ein sylw at anghysondebau yn y data mewn canolfan CBT trydydd parti yn Ibadan, Nigeria, gan Pearson VUE sy'n rhedeg y rhaglen CBT ar ein rhan. Cafodd profi yn y ganolfan ei atal ac fe oedon ni bob cais oedd ar y gweill i'n cofrestr gan unigolion a brofodd yn y ganolfan hon.

Dangosodd dadansoddi gwrthrychol ac annibynnol o'r data yn eglur fod cymryd profion yn sylweddol gyflymach yn ystadegol nac mewn safleoedd profion eraill. Rydym yn amau y cafodd rhai pobl eu CBT trwy dwyll, mae'n debygol trwy ddefnyddio dirprwy o brofwr (lle mae rhywun arall yn cymryd y prawf ar ran rhywun arall).

Fe wnaethom felly benderfynu i annilysu pob prawf a gymerwyd yn y safle (gan effeithio ar 1,995 o unigolion), heb ystyried yr amser a gymerwyd i gwblhau'r prawf. Lle roedd gennym bryderon eu bod wedi cyflawni eu sgôr prawf trwy dwyll, fe wnaethom gymryd y camau canlynol:

- Fe wnaethom atgyfeirio 48 gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr i benderfynu a oeddent wedi ennill mynediad trwy dwyll i'r gofrestr. Digwyddodd y gwrandawiadau cyntaf ym Mawrth 2024.
- Fe wnaethom benderfynu bod 669 o ymgeiswyr yn fwy tebygol na pheidio, wedi cael canlyniadau eu profion trwy dwyll. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu hatgyfeirio at Gofrestrydd Cynorthwyol cyn gynted â'u bod wedi'u cwblhau. Hyd yn hyn, mae bron yr holl geisiadau a ystyriwyd gan y Cofrestrydd Cynorthwyol wedi cael eu gwrthod ar y sail nad yw'r gofynion cymeriad yn cael eu hateb.

I weddill yr ymgeiswyr a gweithwyr proffesiynol ar y gofrestr, nid oes pryderon am dwyll, felly naill ai bydd yr achosion yn cael eu cau, neu bydd eu cais yn ailgychwyn cyn gynted ag y bydd prawf newydd wedi cael ei gymryd yn llwyddiannus.

Yn ogystal, rydym wedi gadael yn barhaol pob safle profion CBT wedi'u gweithredu gan drydydd partïon ac mae Pearson VUE wedi rhoi rheolaethau diogelwch a monitro gwell ar waith. Ymgymerodd ein harchwilwyr cenedlaethol hefyd ag archwiliad cynghorol ar draws ein swyddogaeth gofrestriadau. Fe wnaethant ganfod bod rheolaethau helaeth mewn grym a gwnaethant rai awgrymiadau i gryfhau'n rheolaethau ymhellach yn y maes hwn.

# Dileu wedi'i gytuno

Mewn rhai achosion addasrwydd i ymarfer, mar'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wrth galon yr achos yn gallu gofyn i gael ei hystyried ar gyfer dileu o'r rhestr heb yr angen am wrandawiad sylweddol. Yn Ebrill 2023, fe wnaethom ailenwi'r broses yn 'Ddileu wedi'i Gytuno' ac, yn dilyn ymgysylltu â'n Fforwm Llais Cyhoeddus a chyrff cynrychioladol ar gyfer y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, fe wnaethom ddiweddaru ein cyfarwyddyd i roi mwy o hyblygrwydd i ni gytuno i geisiadau am ddileu o'r gofrestr. Fe wnaethom ddileu o'r gofynion cyfarwyddyd i ymchwiliadau fod wedi cael eu cwblhau a gweithwyr proffesiynol i dderbyn pob honiad er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dileu wedi'i gytuno. Gall ceisiadau am ddileu gael eu gwneud yn awr ar unrhyw gam o'r broses.

Ym mhob achos, byddwn yn ystyried yn ofalus a yw er budd y cyhoedd i gadw rhywun ar ein cofrestr fel y gallwn barhau â'n proses addasrwydd i ymarfer – er enghraifft lle mae pryderon difrifol iawn y bydd angen ymchilio iddynt yn llawn bob amser a'u rhoi ger bron panel annibynnol.

Mae tabl 9 yn dangos y nifer o geisiadau a dderbyniwyd a'u cymeradwyo yn y tair blynedd diwethaf ar gyfer dileu wedi'i gytuno (2023–2024 yn unig) a dileu gwirfoddol (2022–2023 a 2021–2022) yn eu tro. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso yn y flwyddyn oherwydd bod rhai penderfyniadau yn cael eu cyrraedd yn y fwyddyn ar ôl i'r cais gael ei dderbyn.

**Tabl 9: Ceisiadau dileu Wedi'u Cytuno/Gwirfoddol**

| Dileadau Wedi'u Cytuno/ Gwirfoddol | 2023–2024 | 2022–2023 | 2021–2022 |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 339 | 108 | 78 |
| Ceisiadau a gymeradwywyd | 154 | 60 | 46 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 155 | 61 | 31 |

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o benderfyniadau dileu gwirfoddol y flwyddyn hon fesul math o gofrestriad.

**Tabl 10: Penderfyniadau dileu Wedi'u Cytuno/Gwirfoddol fesul math o gofrestriad**

| Dileadau Wedi'u Cytuno/ Gwirfoddol | 2023-2024 | | 2022-2023 | | 2021-2022 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig |
| Ceisiadau a gymeradwywyd | 141 | 13 | 53 | 7 | 39 | 7 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 145 | 10 | 57 | 4 | 29 | 2 |
| **Cyfansymiau** | **286** | **23** | **110** | **11** | **68** | **9** |

Ni chafodd penderfyniadau dileu gwirfoddol eu gwneud am weithwyr proffesiynol wedi'u cofrestru'n ddeuol na chymdeithion nyrsio.

# Adolygiadau ac apeliadau

## Adolygu penderfyniadau archwilwyr achosion

Mae gennym y pŵer i adolygu penderfyniadau'r archwilwyr achosion, gan gynnwys cyngor, rhybuddion ac ymgymeriadau, a gall unrhyw un ofyn i ni wneud hynny.

Mae adolygu penderfyniad yn cael ei wneud mewn dau gam.

- Rydym yn penderfynu a ddylid cynnal adolygiad.
- Os byddwn yn cynnal adolygiad, gallwn benderfynu naill ai i gadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol neu fod penderfyniad newydd yn ofynnol.

Mae tabl 11 yn dangos y nifer o geisiadau y gwnaethom eu derbyn a'r penderfyniadau a gymerwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso oherwydd nad oedd rhai adolygiadau wedi'u cwblhau yn y flwyddyn y cafodd y ceisiadau eu derbyn.

Mae dysgu o adolygiadau yn ffurfio hyfforddiant a gweithgareddau gwella ansawdd eraill i'n hymchwilwyr a'n penderfynwyr.

**Tabl 11: Adolygiadau o benderfyniadau archwilwyr achosion**

| Cam pwer i adolygu | 2023-2024 | 2022-2023 | 2021-2022 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd | 37 | 41 | 52 |
| Cam cyntaf: cais wedi'i gau | 6 | 13 | 21 |
| Ail gam: penderfyniad newydd yn ofynnol | 17 | 18 | 18 |
| Ail gam: cadarnhawyd penderfyniad gwreiddiol | 3 | 2 | 0 |

Yn yr 17 achos yn 2023-2024 lle penderfynodd y Cofrestrydd fod penderfyniad newydd yn ofynnol, rhoddodd ddau reswm:

- Mewn 15 achos, roedd nam materol yn y penderfyniad gwreiddiol. Rydym yn dadansoddi'r sefyllfaoedd hyn yn rheolaidd ac yn sicrhau bod unrhyw ddysgu yn cael ei rannu â'r holl wneuthurwyr penderfyniadau perthnasol a'r tîm archwilwyr achosion ehangach.
- Mewn dau achos, roedd nam materol yn y penderfyniad gwreiddiol a daeth gwybodaeth newydd ar gael.

## Apeliadau yn erbyn penderfyniadau panel

Gall nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio apelio yn erbyn penderfyniad gan ein panelau. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno'u hapêl o fewn 28 diwrnod o'r penderfyniad i un o'r canlynol: Yr Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, yr Uchel Lys Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, Neu Lys y Sesiwn yn yr Alban. Gall y llys benderfynu bod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau estyn y cyfnod amser. Gall yr Awdurdod Safonau Proffresiynol (PSA) hefyd atgyfeirio achos i lys os yw'n ystyried nad yw penderfyniad panel yn diogelu'r cyhoedd.

Mae tabl 12 yn dangos cyfanswm nifer yr apeliadau yn ystod 2023-2024; ni chafodd yr holl apeliadau eu cwblhau yn yr un flwyddyn ac mae'r canlyniadau yn cynnwys apeliadau a gyflwynwyd mewn cyfnodau adrodd gwahanol. Mae hyn yn golygu nad yw'r ffigurau yn cydbwyso mewn blwyddyn. Mae dysgu o apeliadau yn cael ei ddefnyddio i ffurfio hyfforddiant i aelodau panel a chydweithwyr a gweithgareddau gwella ansawdd eraill.

### Tabl 12: Canlyniadau apeliadau penderfyniadau panel

| Canlyniad | 2023–2024 | 2022–2023 | 2021–2022 |
| --- | --- | --- | --- |
| Cyfanswm apeliadau a gyflwynwyd | 28 | 16 | 13 |
| Apêl wedi'i chadarnhau | 7 | 7 | 7 |
| Apêl wedi'i gwrthod | 3 | 3 | 6 |

Mae tabl 13 yn dangos y dadansoddiad yn apeliadau penderfyniadau panel yn y flwyddyn hon fesul math o apêl.

### Tabl 13: Apêl o benderfyniadau panel fesul math o apêl

| | PSA | Gweithiwr proffesiynol ar y gofrestr |
| --- | --- | --- |
| Cadarnhawyd apêl | 7 | 0 |
| Gwrthodwyd apêl | 0 | 3 |

# Adfer i'r gofrestr

Gall nyrs neu fydwraig a darwyd oddi ar y gofrestr ymgeisio i gael ei hadfer i'n cofrestr ar ôl pum mlynedd. Cyn y gall ailymuno â'r gofrestr, mae'n rhaid iddo/iddi fodloni panel ei fod/bod yn addas i ymarfer. Os yw ei gais/chais yn llwyddiannus, fel arfer mae'n rhaid iddo/iddi ymgymryd â rhaglen dychwelyd i ymarfer.

Mae tabl 14 yn dangos canlyniadau'r ceisiadau adferiad yn 2023–2024. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso yn y flwyddyn oherwydd bod rhai penderfyniadau yn cael eu cyrraedd yn y flwyddyn ar ôl i'r apêl gael ei gwneud. Mae'r nifer o geisiadau adferiad wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, nid ydym wedi adnabod unrhyw dueddiadau sylfaenol.

**Tabl 14: Canlyniadau ceisiadau adferiad**

| Canlyniad | 2023–2024 | 2022–2023 | 2021–2022 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd | 53 | 60 | 56 |
| Cais wedi'i dderbyn | 17 | 15 | 21 |
| Cais wedi'i wrthod | 15 | 17 | 21 |

Mae tabl 15 yn dangos y dadansoddiad o benderyniadau adferiad y flwyddyn hon fesul math o gofrestriad.

**Tabl 15: Penderfyniadau adferiad fesul math o gofrestriad**

| | 2023–2024 cyfanswm | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
|---|---|---|---|---|
| Cais wedi'i dderbyn | 17 | 17 | 0 | 0 |
| Cais wedi'i wrthod | 15 | 15 | 0 | 0 |

# Edrych ymlaen at 2024–2025

Er gwaetha'n hymdrechion gorau, rydym wedi gweld ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn codi dros y flwyddyn ddiwethaf. Er i gynnydd da gael ei wneud trwy hanner cynta'r flwyddyn, gwnaeth niferoedd uchel parhaol o atgyfeiriadau, a tharfu ar ein busnes craidd fel y gweithgaredd twyll CBT yn Nigeria, hi'n anodd i atal y llwyth achosion rhag cynyddu.

Mae rheoli ein llwyth achosion yn gynaliadwy yn rhan hanfodol o gadw'r cyhoedd yn ddiogel ac annog hyder yn ein prosesau. Ym Mawrth 2024 cymeradwyodd ein Cyngor ein Cynllun Addasrwydd i Ymarfer fydd yn cyflawni gwelliannau i'n prosesau, polisïau, offer presennol, yn ogystal â chynorthwyo ein pobl. Mae'n alluogwr allweddol o drawsnewid ehangach a chyflawni ein statud diogelwch cyhoeddus. Mae'n cadarnhau ein hymrwyniad hefyd i wneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac amserol.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y rheolaeth o'n llwyth achosion o ddechrau'r broses hyd y diwedd i adnabod ac atal rhwystrau i symud achosion yn eu blaenau. Mae'n cydbwyso gweithgareddau wedi'u targedu ac yn ysgogi gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel, amserol yn ein camau sgrinio ac ymchwilio i barhau â lleihau'r llwyth achosion gyda buddsoddiad sylweddol yn ein swyddogaethau dyfarnu fydd yn yn cyflawni buddion ac effeithlonrwydd cynaliadwy, tymor hir ac yn cwblhau ein hachosion mewn dull mwy amserol.

Yn bwysicaf oll, mae'r cynllun yn cael ei arwain gan ein pwrpas sefydliadol a'r profiad rydym yn credu y dylai pobl ei ddisgwyl trwy bedwar prif ganlyniad:

1. Gwella amseroldeb ein hachosion a gostyngiad yn ein hachosion hynaf
2. Ansawdd a diogelwch gwell
3. Gwasanaeth cymesur wedi'i ganoli ar yr unigolyn
4. Sylfaen cost cynaliadwy

Mae eisiau cyflawni'r canlyniadau hyn arnom trwy'r meysydd gwaith canlynol:

- Gwella ansawdd atgyfeirio, diogelwch a chynorthwyo pobl trwy'n prosesau.
- Symud achosion yn eu blaenau yn gyflym ac yn ddiogel yn ein camau asesu cychwynnol ac ymchwilio.
- Rhyddhau capasiti ychwanegol i'n timau ymchwiliadau a pharatoi achosion trwy gynyddu'r amrediad o wasanaethau y gallwn ddefnyddio'n timau cyfreithiol allanol ar eu cyfer. Bydd hyn yn cynorthwyo llwythi achosion rheoladwy ac yn rhyddhau capasiti cyfreithiol mewnol.
- Gwella ein proses yn ein timau paratoi achosion i wella capasiti ar gyfer ein cydweithwyr i ysgogi symud achosion yn eu blaenau sy'n gyson, o ansawdd uchel, yn gymesur ac wedi'u canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Gwella ansawdd ac amseroldeb penderfyniadau mewn dyfarniadau ac ar ein hachosion ymchwilio mawr.
- Gwella ansawdd ac amseroldeb y penderfyniadau ar draws y broses addasrwydd i ymarfer.
- Buddsoddi yn ein pobl, diwylliant a chynllun sefydliadol er mwyn i ni recriwtio a chadw pobl medrus a gwybodus tra'n sicrhau bod lefelau adnoddau a goruchwyliaeth yn briodol i lefel a chymhlethddod y llwyth achosion rydym yn ei symud ymlaen.
- Gwella ein systemau trwy gyflwyno system newydd o reoli achosion yn 2025 i gynorthwyo symud achosion yn eu blaenau yn ddiogel ac yn gyflym mewn ffordd wedi'i chanoli ar yr unigolyn.

Erbyn Mawrth 2025 rydym yn rhag-weld gallu adrodd ein bod wedi:

- cwblhau'r recriwtio manwl o rolau ychwanegol i'n meysydd gwaith achosion blaenoriaeth ac wedi cynefino ein cydweithwyr newydd yn llwyddiannus
- gweld cysondeb gwell ar draws ein timau gwaith achosion wrth iddynt gael eu cynorthwyo gan brosesau llyfn, offer clyfar a Dangosyddion Perfformiad Allweddol a llywodraethiant sy'n helpu ein pobl i ysgogi symud achosion yn eu blaenau yn gyflym ac yn ddiogel
- cymhwyso cyson o fframweithiau ansawdd cyson a chyfannol
- clirio'n hôl-groniad o achosion yn y cam sgrinio sy'n aros am ddyrannu perchennog achos
- gweld gwelliannau yn rheolaeth ein hachosion hynaf a mwyaf cymhleth.

Rydym yn creu fframwaith cyfannol fydd yn olrhain ein cynnydd ac yn helpu i broffwydo perfformiad wedi'i gynorthwyo gan fodelu gweithlu a fframwaith buddion. Bydd y rhain yn darparu cyfeiriad eglur i'n tîm ar y canlyniadau y byddant yn gweithio tuag atynt, yn darparu atebolrwydd eglur ac yn ymgysylltu â nhw trwy ein hadrodd am berfformiad. Bydd hyn yn ein helpu i symud at ffocws ar berfformiad a phenderfyniadau sy'n cael eu llunio gan ddata. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn gyhoeddus trwy ein cyfafodydd Cyngor.

Bydd y flwyddyn nesaf yn adeg anhygoel o brysur i'n cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Proffesiynol wrth i ni gyflawni'r cynllun gwella yn erbyn cefnlen o ymateb i'r adolygiadau i'n hymdriniaeth ag achosion addasrwydd i ymarfer a'r adolygiad ehangach i mewn i'r diwylliant yn y sefydliad. Rydym yn gwybod os bydd atgyfeiriadau i ni yn parhau'n uchel, bydd yn cyflwyno heriau ychwanegol i ni leihau a chynnal ein llwyth achosion, er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol, wrth i achosion yn y broses heneiddio. Ymhellach, bydd yn golygu nad ydym yn gallu symud ymlaen a dod ag achosion i ben mewn dull amserol, mor gyflym ag yr hoffem, gan effeithio ar yr holl bobl sy'n ymwneud â'r achosion. Byddwn yn monitro'r gyfradd atgyfeirio yn barhaus i adnabod unrhyw oblygiadau yn gynnar a all fod ganddi ar ein cynlluniau ac yn gweithio'n hyblyg gyda'n hadnoddau i gyflawni ymyriadau wedi'u targedu yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd, gan gynnwys unrhyw risgiau sy'n codi ar niferoedd atgyfeiriadau i'r Bwrdd Gweithredol ac yn ein cyfarfodydd Cyngor cyhoeddus.

Rydym yn hyderus y bydd ein cynllun gwella yn cyflawni buddion diriaethol i feysydd o'n proses lle mae angen yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r nifer o achosion heb eu dyrannu mewn sgrinio a chynyddu'r nifer o wrandawiadau rydym yn eu cynnal wrth ddyfarnu. Bydd y gwelliannau hyn yn ein gweld yn gwella'r amser mae'n ei gymryd i ni symud achosion yn eu blaenau trwy'n proses, gan wella'r profiad i'r rheini wrth galon yr achosion. Byddwn yn cyflawni'r rhain yn erbyn y gefnlen o gynnal ein gweithgareddau busnes craidd.

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ

**T +44 20 7333 9333**

**nmc.org.uk**

© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2023

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

E03125878

978-1-5286-4982-7